# Rheoli Lletygarwch a'r Celfyddydau Coginio BA (Anrh) (Amser-Llawn)

Bydd y rhaglen hon yn addas i fyfyrwyr sy'n dymuno datblygu llu o sgiliau ym maes lletygarwch, digwyddiadau a busnes. Bydd yn rhoi'r wybodaeth a'r mewnwelediadau angenrheidiol i chi allu datblygu dealltwriaeth o reoli sefydliadau lletygarwch yn fwy effeithiol. Partneriaeth: Prifysgol Cymru Y Drinfof Dewi Sant. Cod UCAS: N801

**Cod UCAS:** N801

## Gofynion Mynediad

Mae'r meini prawf mynediad yn nodweddiadol, ond mae'r Coleg yn ystyried pob cais ar ei ben ei hun sy'n golygu y gallwn roi cynigion yn seiliedig ar gymwysterau, proffil personol a phrofiad. Os oes gennych unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'ch cynnig, cysylltwch â'n Tîm Derbyniadau. Cynnig nodweddiadol: 1 Safon Uwch gradd C neu broffil PP/PPP mewn cymhwyster Lefel 3 BTEC a 5 TGAU Gradd C neu uwch, yn cynnwys Saesneg a Mathemateg (neu gymwysterau cyfatebol).

## Rhagolygon Gyrfa

Gallwch symud ymlaen i ddilyn rhaglen ôl-radd sy'n gysylltiedig â lletygarwch. Mae gan raddedigion gyfleoedd cyflogaeth ym meysydd lletygarwch ac arlwyo, er enghraifft: cynllunio priodasau a gwleddoedd, rheolwr bwyd a diod, rheolwr ty bwyta, lletygarwch corfforaethol a rheolwr cynadleddau a gwleddoedd.

## Modiwlau'r cwrs

Mae modiwlau yn cynnwys: Rheoli Lletygarwch yn Strategol, Gastronomeg Gyfoes, Rheoli'r Fasnsch Drwyddedig, Gweithrediadau Bwytai, Technegau Cegin Broffesiynol, Rheoli Gwleddau a Chynadleddau

## Asesiad

Dulliau Addysgu a Dysgu. Fel arfer bydd y rhaglen hon yn cynnwys darlithoedd a sesiynau tiwtorial. Fel arfer bydd raid i chi gwblhau portffolios, cyflwyniadau a thasgau ysgrifenedig wrth i chi symud ymlaen drwy'r rhaglen.

### DULL ASTUDIO

FT

## LLEOLIAD

Coleg Castell-nedd - 0330 818 8100

## HYD Y CWRS

3Y